

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ein Bro

Adroddiad Blynyddol Strategaeth Gymunedol 2015/16



1. Crynodeb

Darpara'r adroddiad hwn gipolwg ar rywfaint o'r gwaith sy'n parhau i gael ei wneud er mwyn sicrhau y bydd Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg 2011-21 a'r Cynllun Cyflawni 2014-18 yn cael eu cyflawni.

Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'r adroddiad manwl ar Ddangosyddion Craidd a'r adroddiadau cynnydd ar y Cynllun Cyflawni sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/ên/our_council/Public-services-board/Public-Services-Board.aspx

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai o'r heriau sy'n ein hwynebu wrth geisio cyflawni ein Strategaeth a'n Cynllun ac adlewyrcha amrywiaeth y gwaith partneriaeth sydd ar droed ledled Bro Morgannwg.

Cafodd y Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Cyflawni yn y gorffennol eu cymeradwyo, eu darparu a'u monitro gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) blaenorol sydd bellach wedi ei ddisodli gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Mae'r BGC wedi mabwysiadu cynlluniau a strwythurau'r BGLI blaenorol a bydd yn parhau i ddarparu'r blaenoriaethau a nodwyd hyd nes y bydd yn cyhoeddi ei Gynllun Llesiant yn 2018 yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2. Cyflwyniad a Throsolwg

Cyflwyno'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro, BGC 'Ein Bro' yn bartneriaeth statudol newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol 2015. Mae'r Bwrdd yn dod ag ystod o bartneriaid ynghyd i wreiddio a gweithio tuag at y saith amcan Llesiant cenedlaethol a amlinellwyd gan y Ddeddf. Yn sgil y gwaith hwn bydd y BGC yn gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol Bro Morgannwg.

Mae'r BGC yn disodli Bwrdd Gwasanaethau Lleol Bro Morgannwg (BGLI) ac mae'r sefydliadau canlynol oll yn aelodau o'r BGC 'Ein Bro' newydd:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Bro Morgannwg
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
- Heddlu De Cymru
- Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Y Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae Ein Bro wedi mabwysiadu'r cynlluniau, strategaethau a'r seilwaith is-grŵp a ddatblygwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Yn bennaf, dyma'r Strategaeth Gymunedol 2011-2021 a'r cynllun Cyflawni Strategaeth Gymunedol 2014-2018.

Ein Blaenoriaethau

Cwblhawyd Asesiad Anghenion Unedig gan y BGLI yn 2011 a fwydodd y Strategaeth Gymunedol 2011-21 a'r deg amcan a flaenoriaethwyd. Adolygwyd yr asesiad yn 2013 a arweiniodd at ddatblygu cynllun cyflawni pedair blynedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi. Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r llwyddiannau a'r heriau wrth geisio cyflawni ein prif amcanion ac wrth fynd i'r afael â thlodi yn y Fro.

Ein 10 Prif Amcan fel y nodwyd yn y Strategaeth Gymunedol 2011-2021 yw:

1. Bod pobl o bob oed yn ymgysylltu'n weithredol â bywyd yn y Fro a bod y gallu a'r hyder ganddynt i adnabod eu hanghenion eu hunain fel unigolion ac o fewn cymunedau.

2. Bod anghenion amrywiol pobl leol yn cael eu diwallu gan wasanaethau a gwybodaeth hygyrch sy'n **canolbwyntio ar gwsmeriaid**.
3. Bod trigolion a sefydliadau'r Fro yn parchu'r amgylchedd lleol ac yn cydweithio i ateb heriau newid hinsawdd
4. Bod pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i aros yn annibynnol, yn iach a gweithgar. Bod cyfle hafal ganddynt a'u bod yn derbyn gwasanaethau o safon uchel i ateb eu hanghenion amrywiol.
5. Bod **plant a phobl ifanc** yn y Fro yn derbyn gwybodaeth dda a chefnogaeth i gyrchu ystod eang o wasanaethau safonol sy'n eu galluogi i fanteisio ar y cyfleon bywyd ddaw i'w rhan yn eu cymunedau a thu hwnt.
6. Bod pobl o bob oed yn gallu cyrchu **cyfleoedd dysgu** sydd wedi eu cydlynu a bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt i gyrraedd eu potensial llawn, gan helpu i symud rhwystrau i fyd cyflogaeth.
7. Ein bod yn mynd i'r afael â gwreiddiau amddifadedd a bod adfywio'r Fro yn parhau, bod cyfleoedd i unigolion a busnesau yn cael eu datblygu a bod ansawdd yr amgylchedd naturiol a'r un gaiff ei greu yn cael ei amddiffyn a'i wella.
8. Bod y Fro yn **gwneud y gorau o'i sefyllfa o fewn y rhanbarth** gan weithio gyda'i gymdogion er budd pobl a busnesau lleol, denu ymwelwyr, preswylwyr a buddsoddiad.
9. Bod preswylwyr ac ymwelwyr yn **ddiogel** ac yn teimlo'n ddiogel a bod enw da i'r Fro fel ardal o droseddau isel.
10. Bod **iechyd ac anghyfartaledd** yn cael eu lleihau a bod preswylwyr yn gallu cyrchu'r gwasanaethau, cyngor a'r wybodaeth angenrheidiol i wella eu llesiant ac ansawdd eu bywydau.

Mae'r Cynllun Cyflawni Strategaeth Gymunedol a gyhoeddwyd yn 2014, yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi ac wedi ei alinio â Chynllun Mynd i'r Afael â Thlodi Llywodraeth Cymru. Gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gyflawni yn erbyn tair ffrwd waith ar dlodi yn y Fro.

- Atal tlodi - Alinio Teuluoedd yn Gyntaf, cymunedau'n Gyntaf a rhaglenni Dechrau'n Deg I helpu plant, teuluoedd a chymunedau i ddianc rhag tlodi.
- Helpu pobl i fyd gwaith – Gwella'r cyfleoedd i gael cyflogaeth a datblygu sgiliau i wella'r cyfle o gael gwaith all fod yn llwybr allan o dlodi ac at fywyd o ansawdd gwell.
- Lleddfu tlodi - Gwella'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i drigolion y Fro sy'n wynebu anawsterau tai ac ariannol gan eu galluogi i gynnal safon addas o fyw ac i ganfod llwybr allan o dlodi.

Y grwpiau sy'n cyflawni ein hamcanion

I alluogi'r BGLI blaenorol i gyflawni'r amcanion a gytunwyd, fe sefydlwyd sawl bwrdd a phwyllgor gwaith a bydd y rhain yn parhau o dan y BGC hyd nes y datblygir y Cynllun Llesiant yn 2018, sef:

- Bwrdd Plant a Phobl Ifanc; yn gweithredu fel y brif bartneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gan gyflawni Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn trwy gyfrwng 7 Amcan Craidd Llywodraeth Cymru.
- Partneriaeth Bro Ddiogelach; yn gyfrifol am sicrhau fod trosedd ac anrhefn yn isel a bod preswylwyr ac ymwelwyr ill dau yn teimlo'n ddiogel yn y Fro.
- Bwrdd Llesiant ac Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro; mae'r bwrdd yn galluogi sefydliadau partner i gydweithio i wella iechyd y boblogaeth a mynd i'r afael ag anghyfartaleddau iechyd.
- Bwrdd Partneriaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg; yn sicrhau fod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu defnyddio yn y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon posib i wella iechyd a chanlyniadau gofal cymdeithasol ar gyfer preswylwyr Caerdydd a Bro Morgannwg.
- Y Grŵp Alinio Tlodi; yn dwyn ynghyd Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau'n Gyntaf a Chefnogi Pobl i gynyddu'r aliniad rhwng y pedair rhaglen.
- Y Bwrdd Gwella Cyfleon; yn canolbwyntio ar hybu cyfleodd cyflogaeth a datblygu sgiliau ar gyfer preswylwyr y Fro.
- Y Grŵp Cynhwysiant Ariannol; yn dwyn ynghyd ystod o bartneriaid allweddol i sicrhau ymagweddu cydlynol i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau allgau ariannol.

Yn ychwanegol i'r byrddau hyn a'r is-grwpiau, mae gweithgaredd partneriaeth i'w weld gyda Cymunedau'n Gyntaf a Chymunedau Creadigol Gwledig; adroddir ar y gwaith hwn hefyd i'r BGC ac mae'n cyfrannu at nifer o'i flaenoriaethau.

Monitro ein Perfformiad

I fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion a'n ffrydiau gwaith sy'n mynd i'r afael â thlodi, sefydlwyd strwythur rheoli perfformiad cadarn. Mae'r BGC yn derbyn dau adroddiad cynnydd trwy gydol y flwyddyn ar y Cynllun Cyflawni. Mae'r adroddiadau yn darparu diweddariad ar nifer o 'ddangosyddion tlodi' a nodwyd

eisoes gan y Bwrdd. Er mwyn sicrhau cynnydd yn erbyn y Strategaeth Gymunedol, mae set o ddangosyddion craidd wedi eu nodi. Caiff yr Adroddiad Dangosyddion Craidd ei gyflwyno i'r BGC yn flynyddol i roi manylion am berfformiad yn erbyn 30 o ddangosyddion perfformiad. Penderfynodd Ein Bro y dylai'r trefniadau perfformio hyn aros yn eu lle wrth i gynllun Llesiant y Fro gael ei ddatblygu.



Mae modd dod o hyd i'r adroddiad diweddaraf ar y Cynnydd ar y Cynllun Cyflawni a'r Dangosyddion Craidd yma.

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai enghreifftiau nodedig o'r hyn a gyflawnwyd mewn partneriaeth yn ystod 2015/16. Mae'r enghreifftiau yn rhoi cipolwg o'r ystod eang o weithgareddau sydd ar waith ledled Bro Morgannwg er mwyn cyflawni ein deg prif amcan a mynd i'r afael â thlodi.

Be am Siarad – O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae gofyn i'r BGC gynnal asesiad o Lesiant ym Mro Morgannwg. Mae 'Ein Bro' wedi cydweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i lansio'r brand ymgysylltu 'Let's Talk'

Mae'r brand newydd yn cwmpasu ystod y gweithgareddau ymgysylltu fydd yn digwydd fel rhan o'r Aseiad Anghenion poblogaeth ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r asesiad o gyflwr lesiant ledled Bro Morgannwg fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu i gyflawni ein hymrwymiad i wella ymgysylltu.

Gwasanaeth Cwsmeriaid Contact 1 Vale – Er mwyn mynd i'r afael ag Aseidiadau Gofalwyr brys mae Swyddog Cymorth Gofalwyr Gwasanaethau Oedolion wedi ei leoli yng Nghanolfan Gyswllt Cwsmeriaid y Cyngor. Yn ychwanegol i'r swydd hon bydd Therapydd Galwedigaethol hefyd yn cael ei recriwtio i weithio'n agos gyda'r tîm Gwasanaethau Oedolion i fynd i'r afael â materion brys.



Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu i gyflawni ein hymrwymadau i wella gwasanaeth cwsmeriaid a hefyd iechyd ac anghyfartaledd.

Ynni Cynaliadwy Cyd Cymru – Mae Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg, gyda chymorth awdurdodau eraill ledled Cymru wedi parhau i hyrwyddo cynllun Cyd Cymru. Ers 2014 mae'r cynllun wedi helpu dros 4,000 o aelwydydd i gyfnewid, gan arbed £950,000.

Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu i gyflawni ein hymrwymadau o safbwynt cynaliadwyedd a'r amgylchedd lleol a hefyd lleddfu tlodi.

Cymunedau Cyfeillgar i Dementia - Mae nifer o bartneriaid wedi mabwysiadu ethos cyfeillion dementia, wedi cynnal cyfarfodydd briffio ar dementia a datblygu eu Pencampwyr Dementia eu hunain. Mae nifer o fusnesau lleol hefyd wedi eu recriwtio yn gyfeillion dementia a bydd y sefydliadau hyn yn derbyn sticeri ffenestr a thystysgrifau teilyngdod i nodi eu statws fel cyfeillion dementia. Mae hyn yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a chynyddu'r gefnogaeth sydd i bobl â dementia.

Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu i gyflawni ein hymrwymadau o safbwynt pobl hŷn ac iechyd ac anghyfartaledd.



Mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol – yn 2014 sefydlwyd project Friendly AdvantAGE i leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd a chynyddu hyder ymhlith pobl hŷn. Recriwtiwyd 175 o wirfoddolwyr gan y project gwirfoddoli, a ddarparodd 11,500 awr o wirfoddoli i gefnogi pobl hŷn, lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Roedd y project yn llwyddiannus dros ben gyda 60% o'r rhai a gafodd fudd yn cytuno bod eu hymgysylltu cymdeithasol neu lesiant wedi cynyddu a 76% yn cytuno bod effaith gadarnhaol wedi bod ar eu hyder. Daeth y project hwn i ben ym Mis Mawrth 2016 pan ddarfu'r arian.

Fe lwyddodd y gweithgaredd hwn i'n helpu i gyflawni ein hymrwymadau o safbwynt pobl hŷn ac iechyd ac anghyfartaledd.

Gwirfoddoli – Tybir fod gwerth ariannol gwirfoddoli ym Mro Morgannwg erbyn hyn yn £36,903,499; mae hyn yn lleihad ar amcan y gwerth yn 2014/15 sef £42,289,090. Fodd bynnag ystyrir y ffigwr hwn yn fwy cadarn a chywir na'r amcanion blaenorol ac mae'n dangos y cyfraniad arwyddocaol y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud i'w cymunedau lleol.

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau o safbwynt ymgysylltu a chymaint y mae'r ystod eang o weithgareddau gaiff eu hyrwyddo a'u cefnogi gan Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg yn eu cyfrannu i'r holl ymrwymadau yn y Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Cyflawni.

Dysgu Oedolion yn y Gymuned



Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiadau o safbwynt dysgu a sgiliau, helpu pobl i gael gwaith a lleihau anghydraddoldebau.

Sicrhau Gwasanaethau hygyrch i Bawb – Er mwyn sicrhau gwasanaethau cydlynol i blant anabl a phobl ifanc, mae Rheolwr Newid wedi ei gyflogi dan adain Caerdydd, Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd y Brifysgol. Diben y swydd yw datblygu gwasanaethau cydlynol sy'n cydweithio er budd plant anabl, mae rhan fawr o hynny yn ymwneud â'r cyfnod pontio.

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad o safbwynt gwasanaeth cwsmeriaid, plant a phobl ifanc ac iechyd ac anghydraddoldebau.

Ymgysylltu â Phobl Ifanc – cymerodd 3,902 o ddisgyblion Bro Morgannwg ran mewn ymgyrch etholiadol Fforwm Ieuentid y Fro llwyddiannus arall i ethol Maer Ieuentid a dirprwy Faer Ieuentid ar gyfer 2016/17.



Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiadau o safbwynt ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Prydau Ysgol Am Ddim - Mae'r gwaith wedi mynd rhagddo i wella deilliannau dysgu'r myfyrwyr hynny sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim. Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, llwyddodd 75% o ddisgyblion 15 i 16 oed sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim i ennill 5 neu fwy o raddau TGAU A* – C neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfatebol.

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiadau o safbwynt plant a phobl ifanc, dysgu a sgiliau a lleddfu tlodi.

Datblygiad Chwaraeon a Chwarae – Profodd Haf o Chwarae yn llwyddiant unwaith eto yn 2016/16. Roedd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi llwyddo i fwynhau ystod o gyfleoedd gan gynnwys celf a chrefft, adeiladu deniâu, gemau awyr agored, modelu sbwriel, chwarae rôl, chwarae bydoedd bach, sesiynau Play Ranger a Dyddiau Hwyl i'r Teulu.

Dros yr haf bu:

- 1,895 yn cymryd rhan dros 32 o gylchoedd chwarae
- Ymgysylltodd 42 o blant anabl â 213 o sesiynau



Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiadau i blant a phobl ifanc.

Blwyddyn Lwyddiannus o Ddigwyddiadau - Bu'n flwyddyn lwyddiannus arall o ddigwyddiadau ledled Bro Morgannwg yn 2015-16. Mae'r Fro yn parhau i fod yn lleoliad i fynd iddo gan gynnal ystod o ddigwyddiadau yno trwy gydol y flwyddyn.

Mae Ynys y Barri erbyn hyn yn croesawu dros 360,000 o ymwelwyr y flwyddyn, gan greu effaith economaidd o £12.7 miliwn.



Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiadau o safbwynt potensial ein safle yn y rhanbarth yn denu ymwelwyr ac ymgysylltiad buddsoddi.

Gofodau Gwyrdd Arobryn – Mae chwech o barciau'r Fro erbyn hyn wedi ennill statws Baner Werdd. Llwyddwyd i ennill tair Baner Werdd Gymunedol hefyd yn ystod 2015/16. Caiff Baneri Gwyrdd Cymunedol eu rhoi i ofodau gwyrdd gaiff eu rheoli gan wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol.

Yn ogystal â'r gwobrau hyn, mae gwaith ailwampio sylweddol wedi ei gyflawni yn ardal chwarae George Street. Aethpwyd ati gyda'r gymuned leol oedd yn

chwarae rhan weithredol yn y dyluniad a'r cynllun ei hun. Bu'r man chwarae yn llwyddiant mawr yn ôl y preswylwyr ac mae'n ased gwyb i'r ardal.



Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau o safbwynt ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'r amgylchedd.

Partneriaethau Gwledig – Mae'r Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi mynd ati ar broiect mapio sylweddol yn Sain Tathan. Mae'r project yn adolygu'r math o wasanaethau ac asedau sy'n bodoli eisoes efallai yn yr ardal ynghyd ag asesu anghenion y gymuned ac unrhyw fylchau all fod yn y ddarpariaeth bresennol.

Trwy'r project mae'r tîm wedi datblygu offer Mapio Asedau a gobeithir unwaith i'r project gael ei gwblhau y gall ardaloedd eraill gwblhau eu projectau mapio eu hunain.

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau o safbwynt ymgysylltu a gwasanaeth cwsmeriaid. Dewiswyd Sain Tathan ar gyfer y project yn sgil y lefelau uchel o amddifadedd yn yr ardal.



Diogelwch Cymunedol - Dros y flwyddyn ail-lansiwyd y project i ddiogelu'r rhai sy'n goroesi trais yn y cartref gydag arian a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru. Trwy'r cynllun prynwyd larymau tai ac offer teledu cylch cyfyng i'r rheiny risg uchel o ddioddef trais yn y cartref.

Mae rhai sydd wedi dioddef trais domestig yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel o fewn eu cartrefi yn sgil y gwelliannau hyn, gan leihau'r angen i gael eu hail-gartrefu neu eu symud i loches.

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau o safbwynt diogelwch a gwella iechyd ac anghydraddoldebau.

Dibyniaeth Alcohol – Mae canran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn yfed mwy na'r lefel a awgrymir yn parhau i ddisgyn dros y Fro. 42% yw'r ffigwr ar gyfer Bro Morgannwg erbyn hyn; mae hyn yn cymharu yn ffafriol â'r ffigwr blynyddol blaenorol yn 2014/15 sef 42.3% a 43% yn 2013/14.

Yn yr un modd mae'r canran o oedolion sy'n nodi iddynt yfed i ormodedd yn yr wythnos ddiwethaf yn parhau i ostwng; 23% yw'r ffigwr hwn bellach ar gyfer Bro Morgannwg. Eto mae hyn yn cymharu yn ffafriol â ffigyrau blaenorol ar gyfer 2014/15, sef 23% a 24% yn 2013/14.

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiadau o safbwynt diogelwch cymunedol, iechyd ac anghydraddoldebau.

Yn dilyn llwyddiannau'r llynedd, ac er mwyn mynd i'r afael a'r heriau o'n blaenau, mae sawl blaenoriaeth wedi ei nodi ar gyfer 2016/17. **Bwyta'n lach** – Byddwn yn datblygu agwedd siartr fwyd ym Mro Morgannwg. Bydd y Siartr wedi ei llunio ar sail ymchwiliad i'r amgylchedd fwyd ym Mro Morgannwg, gan ddefnyddio methodoleg 'sensemaker'.

Law yn llaw â'r siartr, mae 25 o leoliadau cyn-ysgol wedi eu dewis i gynllun cyn-ysgol lachus a Chynaliadwy Bro Morgannwg. Mae pob lleoliad un ai yn gweithio tuag at neu wedi cwblhau modiwlau ar faetheg, iechyd y geg a gweithgaredd corfforol.

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad o safbwynt plant a phobl ifanc ac iechyd ac anghydraddoldebau.

Sicrhau Cyfleoedd Hygyrch – Trwy barhau i ddefnyddio Ariannu Ewropeaidd Cymdeithasol a gweithio mewn partneriaeth â Cymunedau'n Gyntaf a Job Centre Plus byddwn yn cynyddu nifer y bobl ifanc rhwng 18-24 sy'n dechrau ar fyd gwaith.

Trwy'r gwaith yma byddwn yn parhau i leihau niferoedd y bobl ifanc sy'n gadael ysgol ym mlwyddyn 13 Nad sydd Mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant.

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau o safbwynt pobl ifanc, dysgu a sgiliau a helpu pobl i fyd gwaith



Mynd i'r afael â thlodi – Byddwn yn gweithio i roi dull mwy cydlynol o weithio yn lleol ar waith ar sawl rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi a darparu cymorth. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau'n Gyntaf a Chefnogi Pobl. Byddwn yn parhau i archwilio gwahaniaethau o safbwynt disgwyliad oes a disgwyliad oes iach ar draws y Fro.



Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad o safbwynt plant a phobl ifanc, pobl hŷn, mynd i'r afael â thlodi, iechyd ac anghydraddoldebau.

Gwella Deilliannau i Ddysgwyr - Byddwn yn parhau a'n gwaith i sicrhau deilliannau gwell i grwpiau o ddysgwyr sydd mewn peryg o dangyflawni megis y rheiny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.



Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau o safbwynt plant a phobl ifanc, dysgu a sgiliau a lleddfu tlodi.



Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Bu codiad yng nghyfradd trais yn erbyn y person ym Mro Morgannwg o 16.7%. Byddwn yn mynd i'r afael â'r her hwn trwy barhau â'n partneriaeth weithio gydag ystod o asiantaethau. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys rhoi dull cyfiawnder adferol ar waith o safbwynt ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau o safbwynt diogelwch cymunedol.

Cefnogi'r Fro Wledig – Bydd y gwaith o gefnogi cymunedau gwledig yn parhau gan eu galluogi i gyrchu adnoddau a datblygu gallu i wella a chynnal asedau cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys bwrsariau i bobl ifanc sydd a syniadau am fentrau busnes neu gymunedol a gwaith gyda chymunedau'r glannau.



Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau o safbwynt ymgysylltu, adnewyddu a helpu pobl i fyd gwaith.

Trafnidiaeth gymunedol – bydd yn gwaith yn mynd rhagddo i ehangu'r Gwasanaeth Cludiant Cymunedol cyswllt Gwyrdd dros Fro Morgannwg. Mae hwn yn adnodd pwysig i bobl leol a thrwy ein gwirfoddolwyr mae'n parhau i ateb anghenion cymunedau lleol.



Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau o safbwynt ymgysylltu, gwasanaeth cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Iechyd a Llesiant – Bydd partneriaid o Fwrdd Iechyd y Brifysgol, y Cyngor a'r Trydydd Sector yn parhau i gydweithio i wella iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi asesiad anghenion poblogaeth cynhwysfawr o safbwynt gofal a gwasanaethau cymorth ac archwilio gweithio'n lleol.


Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau o safbwynt iechyd, ymgysylltu a gwasanaeth cwsmeriaid.



Yr Her Fwyaf

Newid y modd rydym yn gweithio – Mae'r BGC wedi ymrwymo i'w gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi mabwysiadu'r 5 dull o weithio. Mae hyn yn adeiladau ar y gwaith a wnaed eisoes gan y BGLI ond mae'n cydnabod yr angen i osod mwy o bwyslais ar integreiddio, cynnwys, atal, cydweithio ac edrych i'r tymor hir i wella canlyniadau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Byddwn yn gweithio ar y cyd i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ledled y Fro. Byddwn yn cyhoeddi asesiad llesiant yn 2017 fydd wedi ei fwydo gan raglen i ymgysylltu, gwybodaeth perfformiad a data. Yn ei dro bydd hyn yn bwydo ein Cynllun Llesiant y byddwn yn ei gyhoeddi yn 2018 ac a fydd yn manylu ar sut y byddwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.



Am fwy o wybodaeth ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg, ac i adolygu'r adroddiadau perfformiad sy'n mynd law yn llaw â'r Adroddiad Blynyddol, ewch i dudalennau gwe 'Ein Bro'.

